WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13

## Cyngor Gwynedd


**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 347A2012

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Huw Lloyd Jones a Nigel Griffiths o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13 | |
| Gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Gwynedd | 4 |
| Yr Asesiad Gwella | 4 |
| Cyflwyno adroddiadau | 7 |
| Astudiaethau llywodraeth leol | 7 |
| Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei waith archwilio perfformiad yn y Cyngor | 7 |
| Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig | 8 |
| Gwaith rheoleiddwyr perthnasol | 8 |
| Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio perfformiad lleol yng nghyrff unigol y GIG | 9 |
| Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian | 9 |
| Gwaith y gall y Cyngor fod wedi'i gomisiynu | 9 |
| Atodiadau | |
| Gwaith perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13 | 10 |
| Rolau a chyfrifoldebau | 11 |
| Tîm archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru | 13 |
| Ffioedd | 14 |
| Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian | 15 |

# Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13

## Gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Gwynedd

1. Mae'r rhaglen hon yn nodi'r gwaith i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
2. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Nodir ystod y gwaith archwilio perfformiad y bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol yn ei gyflawni yn fanylach mewn Cynllun Gwaith ac Amserlen a adolygir bob chwarter.
3. Mae Atodiadau 2 a 3 yn nodi rolau a chyfrifoldebau staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â manylion cyswllt ar eu cyfer.
4. Nodir ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 4.
5. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi mater sy'n ddigon pwysig i ystyried cynnal arolygiad arbennig fel ymateb priodol iddo, bydd yn codi ffi ychwanegol am gynnal arolygiad o'r fath.

### Yr Asesiad Gwella

6. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol er mwyn penderfynu pa un a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
   - adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus;
   - astudiaethau gwella o feysydd a all lesteirio ymdrechion i wella neu drawsnewid neu esgor ar aneffeithlonrwydd;
   - darnau pwrpasol o waith sy'n gysylltiedig ag Amcanion Gwella a threfniadau'r Cyngor;
   - archwiliadau o Gynllun Gwella cyhoeddedig y Cyngor a'i hunanasesiad o berfformiad.

#### a) Trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus

7. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad llawn o drefniadau corfforaethol y Cyngor unwaith bob pedair blynedd, oni fydd ganddo bryderon sylweddol sy'n awgrymu y dylai adolygu'r trefniadau hynny'n amlach. Eleni ni fyddwn yn cynnal asesiad corfforaethol llawn, ond yn hytrach byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol a'i gwnaeth yn ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- sefydlu a chynnal cofrestr o adroddiadau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol, yr Archwilydd Penodedig a rheoleiddwyr perthnasol (fel y'i diffinnir yn Adran 16 o'r Mesur);
- pennu proses lle y caiff aelodau etholedig eu hysbysu o'r canfyddiadau a nodir mewn adroddiadau gan reoleiddwyr ac o gynnydd wrth weithredu'r argymhellion;
- diffinio'r canlyniadau gwella y mae'n bwriadu eu cyflawni mewn ffordd fwy eglur, yn unigol a chyda phartneriaid, a gwella ei ddefnydd o wybodaeth am berfformiad i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r canlyniadau hyn;
- fel rhan o'i adolygiad llywodraethu ei hun, adolygu cylch gwaith y pwyllgorau craffu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'w drefniadau rheoli yn well;
- nodi lefel y gallu ac adnoddau sydd ar gael o ran Adnoddau Dynol i helpu gwasanaethau i ddatblygu eu cynlluniau gweithlu;
- sicrhau bod ei Amcanion Gwella a'i Gynllun Gwella yn haws eu deall i randdeiliaid â diddordeb;
- diffinio ei Amcanion Gwella fel eu bod:
  - yn glir - gan nodi'r gwelliannau y gall dinasyddion disgwyl eu gweld;
  - yn gadarn - gyda diffiniadau pendant o lwyddiant boed yn feintiol neu'n ansoddol;
  - yn rhai y gellir eu dangos - a all gael eu hategu gan dystiolaeth wrthrychol ond nid o reidrwydd gan dystiolaeth fesuredig na meintiol;
- sicrhau, pan fydd yn cyflwyno adroddiadau ar ei dargedau a'i berfformiad, fod y ffigurau a ddyfynnir mewn dogfennau gwahanol yn gyson;
- ystyried ffyrdd y gall roi trosolwg effeithiol o'r chwe Bwrdd Rhaglen gan ganolbwyntio'n benodol ar nodi cyd-ddibyniaethau a'u heffaith ar wasanaethau a swyddogaethau nas cwmpesir gan y trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni ac ymateb iddynt;
- llunio, ar y cyd â phartneriaid allweddol, nifer gyfyngedig o fesurau perfformiad ar gyfer y pum canlyniad gwella lefel uchel yn y Strategaeth Gymunedol;
- sicrhau, pan fydd yn pennu ei Amcanion Gwella, fod mwy o gysondeb o ran ansawdd mesurau canlyniadau yn ei chwe Chynllun Rhaglen;
- sicrhau bod ei asesiad blynyddol o berfformiad:
  - yn cysylltu, yn benodol, y gwaith o ddadansoddi data ar berfformiad â'r Amcanion Gwella;
  - yn cynnwys dadansoddiad mwy cytbwys yn y crynodeb o'i hunanasesiad;
- yn cyflymu cyfradd newidiadau o ran ei waith cynllunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r graddau y mae'n cyrraedd y safonau cenedlaethol o ran amseroldeb asesiadau ac adolygiadau.

## b) Astudiaethau gwella

**8.** Yn ei lythyr dyddiedig 13 Mawrth 2012, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei gynigion ar gyfer astudiaethau gwella eleni, sef adolygiadau o'r canlynol:

- y themâu allweddol sy'n deillio o'n harchwiliadau o Amcanion Gwella a hunanasesiadau o berfformiad;
- effeithiolrwydd y gwaith craffu;
- y dulliau o gynnal adolygiadau mewnol o waith llywodraethu a pharatoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.

## c) Gwaith penodol

**9.** Nodir ein cynigion ar gyfer gwaith lleol eleni yn Arddangosyn 1.

### Arddangosyn 1

| Enw'r astudiaeth | Rhesymeg |
|---|---|
| Cydweithio â phartneriaid | Mae cydweithio effeithiol i sicrhau bod gwasanaethau’n gwella yn parhau i fod yn her i'r Cyngor a'i bartneriaid. |
| Digartrefedd | Bydd hwn yn faes arbennig o heriol i'r Cyngor a'i bartneriaid yng nghyd-destun y diwygiadau arfaethedig i les. |
| Materion yn deillio o waith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn yn y Cyngor. | Byddwn yn cydweithio'n agos ag AGGCC, Estyn a'r Cyngor i bennu cwmpas gwaith a all godi o ganlyniad i arolygiad gan Estyn a/neu o werthusiad AGGCC o berfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. |

## ch) Archwiliadau o'r 'Cynllun Gwella' a'r 'Asesiad o Berfformiad'

**10.** Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i ganfod pa un a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella a chyhoeddi gwybodaeth am welliannau, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

**11.** Mae dyletswydd ar awdurdodau gwella i gyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r cynllun hwn ac i ddatgan pa un a yw o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau statudol.

12. Rhaid i awdurdodau gwella hefyd gynnal 'Asesiad o Berfformiad' a chyhoeddi gwybodaeth am welliannau erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r asesiad a'r cyhoeddiad a datgan pa un a yw o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau statudol.

## Cyflwyno adroddiadau

13. Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor i gyflwyno adroddiad ffurfiol ar ein hadolygiad dilynol o'i drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yn y llythyr hwnnw, byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor ac yn rhoi sylwadau ar gadernid cynlluniau strategol a gweithredol eraill.
14. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar bob Astudiaeth Wella. Cyhoeddir crynodeb cenedlaethol o bob Astudiaeth Wella hefyd.
15. Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor yn dilyn ein harchwiliad o'i hunanasesiad i gyflwyno adroddiad ffurfiol ar ein canfyddiadau ar gadernid a dilysrwydd y broses.
16. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2013 sy'n crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol ac yn adrodd ar y gwaith hwnnw.

## Astudiaethau llywodraeth leol

17. Mae'n ddyletswydd hefyd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau o awdurdodau lleol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn ystod 2012-13, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETS).

# Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei waith archwilio perfformiad yn y Cyngor

18. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddefnyddio gwaith arall wrth lunio ei gasgliadau mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:
    - gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig;
    - gwaith rheoleiddwyr perthnasol, yn arbennig AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg;
    - rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio perfformiad lleol yng nghyrff unigol y GIG;
    - rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian sy'n ystyried darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cysylltiedig wrth ddefnyddio eu hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau;

- gwaith y gallai'r Cyngor fod wedi'i gomisiynu.

## Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig

**19.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio cyfrifon awdurdodau lleol a chyflwyno adroddiadau arnynt. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar y canlynol:

- a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r corff, neu'n ei chyflwyno'n deg;
- a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu cymwys;
- rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol.

**20.** Bydd archwilwyr hefyd yn astudio datganiad llywodraethu neu ddatganiad am reolaeth fewnol y Cyngor ac yn nodi unrhyw achos lle nad yw'n unol â'r gofynion perthnasol neu lle y gall fod yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall y maent yn ymwybodol ohoni.

**21.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Penodedig fodloni eu hunain bod corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd archwilwyr yn defnyddio meini prawf a nodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dibynnu ar yr Asesiad Gwella a gwaith arall a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu reoleiddwyr perthnasol.

## Gwaith rheoleiddwyr perthnasol

**22.** Mae Estyn ac AGGCC hefyd yn cyflawni gwaith yn ymwneud â chynghorau yng Nghymru. Disgrifir natur y gwaith hwnnw a'r swyddogaethau deddfwriaethol sy'n ei ategu yn Atodiad 2. Mae Arddangosyn 2 yn nodi gweithgarwch rheoleiddio a gynlluniwyd gan Estyn ac AGGCC. Caiff y gwaith hwn a gwaith arall a all godi ei gynnwys pan ddiweddarir y Cynllun Gwaith ac Amserlen.

### Arddangosyn 2: Gweithgarwch rheoleiddio arall a gynlluniwyd

| Estyn | Cwmpas ac amserlen |
|---|---|
| I'w drefnu. | I'w drefnu. |
| **AGGCC** | **Cwmpas ac amserlen** |
| Bydd AGGCC yn nodi unrhyw waith maes ar gyfer 2012-13 ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. | I'w drefnu. |

**23.** Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn monitro cynnydd cynghorau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.

## Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio perfformiad lleol yng nghyrff unigol y GIG

**24.** Fel archwilydd allanol y GIG yng Nghymru, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol raglen o waith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad yn ymwneud â chyrff iechyd lleol unigol hefyd. Wrth i gydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ddod yn fwy cyffredin, bydd y gwaith hwn yn dod yn fwyfwy perthnasol i'w waith Asesu Gwelliant.

## Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian

**25.** Fel arfer, cyflwynir adroddiadau sy'n deillio o raglen astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gan fod llawer o'r astudiaethau hyn yn gorgyffwrdd â gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn aml byddant yn berthnasol i'w waith mewn llywodraeth leol. Er y gall newid yn ystod y flwyddyn, mae Atodiad 5 yn rhestru'r astudiaethau gwerth am arian y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd. Fel y nodir ym mharagraff 18, gall astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol ffurfio rhan o astudiaeth gwerth am arian ehangach.

## Gwaith y gall y Cyngor fod wedi'i gomisiynu

**26.** O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cyngor gomisiynu gwaith gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r Cyngor drafod hyn yn gyntaf gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 1

## Gwaith perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13

| |
|---|
| Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru gyfan 2012-13 – Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETS) |
| Archwiliad o'r Cynllun Gwella |
| Cyhoeddi'r archwiliad o'r asesiad o berfformiad, gan gynnwys profi a dilysu gwaith asesu perfformiad yr awdurdod |
| Archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad |
| Asesiad risg o fudd-dal tai a budd-dal treth gyngor |
| Astudiaeth Wella – themâu allweddol o'n harchwiliadau o Amcanion Gwella a hunanasesiadau o berfformiad |
| Astudiaeth Wella – effeithiolrwydd gwaith craffu |
| Astudiaeth Wella - dulliau o gynnal adolygiadau mewnol o drefniadau llywodraethu a'r broses o baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol |
| Cydweithio â phartneriaid |
| Digartrefedd |
| Materion sy'n codi o waith AGGCC ac Estyn yn y Cyngor |

** Mae rhaglen waith a ffi pob blwyddyn yn cwmpasu un cylch o waith Asesu Gwelliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y gwaith hwn yn cyd-fynd yn union â chyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth. Felly, mae'n bosibl y bydd y gwaith a wneir i gyflawni ein rhaglen waith flynyddol yn rhychwantu blynyddoedd ariannol.*

# Atodiad 2

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nodir prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddf Llywodraeth Leol 1999, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

### Cyfarwyddwr y Grŵp Perfformiad

Mae Cyfarwyddwr y Grŵp Perfformiad yn uniongyrchol atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am oruchwylio'r broses o gyflawni'r holl waith archwilio perfformiad yn y Cyngor.

### Rheolwr rhanbarth llywodraeth leol

Mae'r Rheolwr yn atebol i Gyfarwyddwr y Grŵp ac ef yw'r prif gyswllt ar gyfer y gwaith Asesu Gwelliant ar lefel uwch swyddog a lefel wleidyddol mewn cyrff llywodraeth leol. Bydd y Rheolwr yn cyflwyno adroddiadau ar yr Asesiad Gwella i'r Cyngor.

### Arweinydd Archwilio Perfformiad

Mae'r Arweinydd Archwilio Perfformiad yn cynllunio ac yn cydgysylltu mewnbwn i'r Asesiad Gwella yn y Cyngor.

### Archwilwyr Penodedig

Mae'n rhaid i'r Archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan Ddeddfau 1999 a 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.

### Rheoleiddwyr perthnasol

Cynhwysir prif swyddogaethau AGGCC ym Mhennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau o Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc o dan Adran 38 o Ddeddf Addysg 1997. Mae'r arolygiadau hyn yn rhan o gylch tair blynedd a ddechreuodd yn 2010-11. Bydd Estyn hefyd yn cynnal arolygiadau dilynol yn ôl yr angen.

Mae gan Estyn bwerau hefyd o dan Ddeddf Addysg 2005 ac Adran 86 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cynhelir arolygiadau eraill Estyn a all gynnwys darpariaeth cynghorau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chytundeb rhwng Estyn a'r Ganolfan Byd Gwaith. Sefydlwyd y cyfnod hysbysu ar gyfer holl arolygiadau Estyn drwy gytundeb rhwng Estyn a darparwyr gwasanaeth ym mhob sector. Gan fod y cyfnod hwn yn aml yn weddol fyr (tri mis fel arfer), nid yw'n bosibl cyhoeddi manylion unrhyw arolygiadau na hysbyswyd y darparwr ohonynt ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn yr achosion hyn, cyn gynted ag yr hysbysir y darparwr o'r arolygiad, rhoddir y manylion i Swyddfa Archwilio Cymru, a fydd yn diweddaru'r Cynllun Gwaith ac Amserlen.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

# Atodiad 3

## Tîm archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru

| Enw | Rôl | Ffôn | E-bost |
|---|---|---|---|
| Alan Morris | Cyfarwyddwr Grŵp | 07818 427472 | alan.morris@wao.gov.uk |
| Huw Lloyd Jones | Rheolwr - Rhanbarth Gogledd Cymru | 01248 681980<br>07813 822017 | huw.lloyd.jones@wao.gov.uk |
| Nigel Griffiths | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07798 503065 | nigel.griffiths@wao.gov.uk |

# Atodiad 4

## Ffioedd

Y ffi arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013 yw £134,188 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013. Nodir ein ffi isod.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael grant gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Defnyddir rhan o'r grant hwn i roi cymhorthdal tuag at ffioedd ar gyfer gwaith Asesu Gwelliant. Eleni mae'r cymhorthdal wedi'i ddyrannu'n gyfartal rhwng y 22 o awdurdodau unedol.

Y ffi

| | Ffi o fis Ebrill 2012 hyd at fis Mawrth 2013* (£) |
|---|---|
| Cyfanswm y ffi ar gyfer gwaith Asesu Gwelliant ac archwiliadau | 169,188 |
| Llai cymhorthdal Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | 35,000 |
| Ffi a godir ar yr awdurdod | 134,188 |

**Dim ond am archwilio perfformiad y codir y ffi ac nid yw'n cwmpasu gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig.*

# Atodiad 5

## Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian

| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** |
| --- |
| Cronfeydd strwythurol yr UE 2007-13 |
| Llywio gofal iechyd |
| Gwireddu buddiannau contract meddygon ymgynghorol y GIG |
| Gwerthu Gwesty River Lodge (gynt), Llangollen |
| Gofal iechyd ledled y DU (mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon) |
| Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 |
| Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Gofal iechyd parhaus |
| Cynllunio at argyfwng - argyfyngau sifil posibl |
| Addysg plant sy’n derbyn gofal |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus - cyllid iechyd |
| Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru |
| Caffael gwasanaethau ymgynghori yn y sector cyhoeddus |
| Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed - gwaith dilynol |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru - gwaith dilynol |
| **Astudiaethau a gynlluniwyd nad ydynt wedi dechrau eto** |
| Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS) |
| Rheoli meddyginiaethau |
| Rheoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch |
| Athrawon cyflenwi (ar y cyd ag Estyn o bosibl) |
| Cynllunio'r gweithlu yn y sector cyhoeddus/rheoli'r gwaith o leihau'r gweithlu |
| Grantiau i ffermwyr (gan ganolbwyntio o bosibl ar gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir) |

*Noder: Yn ogystal â'r rhestr hon, mae'n debygol y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu cyhoeddi adroddiad(au) cryno cenedlaethol yn dilyn gwaith archwilio perfformiad lleol diweddar mewn perthynas â'r GIG ar ofal heb ei drefnu a'r gwaith o reoli cyflyrau cronig.*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk